CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/02/2026 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Caren Jones | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Gwynfor Jones | Gruffudd Griffiths | Carys Roberts | Gito Williams | Lleucu Jones |
| Rhian Sanson | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Catrin Roberts a Rhys Llewelyn.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Mared Llywelyn Williams – eitem 9.1 a 12
   Lleucu Jones – eitem 4.2

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 13/01/2026
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gwynfor Jones  Eilio: Gito Williams
   **<u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
   Yn dilyn derbyn cwyn gan Ymgymerwr Angladdau ynglŷn â angladd ym mynwent Morfa Nefyn y mis diwethaf mae'r Clerc wedi derbyn eglurhad gan y torrwr beddi. Mae'r Cynghorwyr yn teimlo bod yr eglurhad yn dderbyniol ac yn hapus ei fod yn cymeryd ei gyfrifoldebau am y mynwentydd yn holl bwysig. Gofynwyd i'r Clerc ei basio ymlaen i'r Ymgymerwr Angladdau iddo ef gael egluro wrth y teulu.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Gosod 2 sêt swing newydd yn Parc y Ddôl – Clerc**
      Mae'r 2 sêt swing newydd wedi cyrraedd ac mae aelod lleol Nefyn am fynd i'w rhoi yn eu lle.
   2. **Defnyddio Siop Siarad ar gyfer siop 'pop up' yn ystod yr haf – Lleucu Jones**
      Mae'r aelodau yn hapus i roi eu caniatad eto eleni.
      Cynnig: Mared Llywelyn Williams  Eilio: Arfon Hughes

5. **Tap Dŵr Mynwent Edern –** diweddariad **–** Clerc
   Mae'r Clerc wedi bod yn gwneud ymholiadau ac wedi cael cadarnhad nad yw perchenng Tŷ capel Edern yn talu am gyflenwad dŵr y fynwent, mae hi hefo mesurydd dŵr i Tŷ Capel ac nid yw cyflenwad dŵr y fynwent yn rhan ohono. Mae aelod lleol Edern am wneud mwy o ymholiadau.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Cyngor Tref Nefyn

COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/02/2026 am 7yh

6. **Sedd Wag Ward Morfa Nefyn –** diweddariad – Clerc
Mae'r dyddiad cau wedi pasio ac nid yw'r Clerc wedi derbyn cais am y sedd wag. Penderfynwyd i ail hysbysebu am gyfnod o bythefnos hefo dyddiad cau o 25ain o Chwefror 2026.
Cynnig: Gareth Jones Eilio: Gito Williams

7. **Llwybr Penrallt Nefyn a Llwybr at Gorsaf Bâd Achub Porthdinllaen** – diweddariad **–** Gruffydd Williams a Gareth Jones
Cafwyd diweddariad gan y ddau gynghorydd lleol.

8. **Carreg sy'n dal giat mynwent Fron –** Gruffydd Williams
Ei roi ar agenda mis nesaf.

9. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
   1. **Côr Cantorion Llŷn –** cais am gyfraniad ariannol – gwybodaeth ychwanegol yn dilyn pwyllgor mis Ionawr.
   Penderfyniad: gofyn am fwy o wybodaeth a'i roi ar agenda mis nesaf.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones
   2. **Cylch Meithrin Edern –** cais am gyfraniad ariannol
   Penderfyniad: rhoi cyfraniad o £500.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams
   3. **Cyngor Tref Pwllheli –** bysiau nos
   **Penderfyniad:** cefnogi'r achos yma.
   **Cynnig:** Arfon Hughes Eilio: Caren Jones

10. **Ceisiadau Cynllunio**
   1. **C25/0915/42/AM** - Tir Ger Erw Wen, Lon Penrhos, Morfa Nefyn - cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw yn ol i godi un ty annedd.
   Penderfyniad: Gwrthod – gor-ddatblygiad.
   Cynnig: Rhian Sanson Eilio: Gruffudd Griffiths
   2. **C26/0025/42/DT** – Waen, Lôn Pen Rhos, Morfa Nefyn - adeiladu estyniad unllawr ar ochr yr annedd a chynyddu'r estyniad cefn presennol i dŷ deulawr ar wahân.
   Penderfyniad: Gwrthod – gor-ddatblygiad.
   Cynnig: Rhian Sanson Eilio: Mared Llywelyn Williams
   3. **C26/0026/42/DT** - 18 Llwyn Gwalch, Morfa Nefyn - estyniad unllawr i gefn yr eiddo.
   Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Carys Roberts

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 10/02/2026 am 7yh

**11. Ceisiadau Diweddarach**

Dim.

**12. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1744.84 (taliad Bacs) yn cynnwys oriau ychwanegol a awdurdodwyd mis diwethaf.
- Mared Llywelyn Williams – trydydd taliad y cadeirydd - £300.00
- HMRC – PAYE Mis 10 - £607.99
- Bacstal Pac – gwasanaeth cyflogau - £173.28
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £43.14
- D M Parry – pumed a chweched taliad mynwent Edern a gwaith ychwanegol - £1180.00
- John Gwynfor Jones – agor bedd Dilys Jones - £550.00
- Cymdeithas Llanw Llŷn – hysbys tendar mynwentydd - £20.70
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Ionawr - £189.48

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.

Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

**13. Taliadau wedi eu derbyn**

- Cyngor Gwynedd – rhan o arian grant Gwynedd Ni – 4 planter - £1838.00
- Dewi Thomas – angladd Charles Caddick - £1350.00
- Dewi Thomas – angladd Rosemarie Donoghue - £1350.00

Pasiwyd i gynnal Is-bwyllgor ariannol ar y 3ydd Mawrth am 3y.h. i fynd drwy'r ceisiadau am gyfraniadau ariannol cyn pwyllgor mis Mawrth.